Daniel Owen, 1836–95
Gweinidog (M.C) a nofelydd

"Nid i'r doeth a'r deallus yr ysgrifenais, ond i'r dyn cyffredin."
Daniel Owen

Cyn y gellir gwerthfawrogi cyfraniad arloesol Daniel Owen rhaid deall pa mor unplyg Gristnogol oedd meddylfryd yr Ymneilltuwyr yng Nghymru ar ddechrau'r 19eg ganrif. Cuchiwyd ar unrhyw weithgaredd yn eu plith nad oedd yn uniongyrchol Gristnogol. Gwrthwynebwyd eisteddfodau, dawnsfeydd, chwaraeon, dramâu, offerynnau cerdd, a hyd yn oed ar y dechrau, gynnal ysgol ar y Sul. Wedi dyfodiad y diwygiad dirwestol ym 1839 a'i ddylanwad yn y blynyddoedd dilynol, meiriolodd y rhagfarnau at lawer o'r pethau hyn ac yn y cyfnod hwn o newid fe gafodd Daniel Owen ei gyfle i feithrin ei ddawn ysgrifennu.

Ganwyd ef ar 20 Hydref 1836 yn 53 Maes y Dref, yr Wyddgrug, sir y Fflint, yr ieuengaf o chwech o blant Robert Owen a Sarah Edwards. Boddwyd ei dad a dau o'i frodyr mewn damwain yng ngwaith glo Argoed. Ychydig o addysg a gafodd, a phan oedd yn ddeuddeg oed fe'i prentisiwyd am bum mlynedd fel teiliwr gyda John Angell Jones, a gweithiodd gydag ef am ddeng mlynedd. Arferai gweithdy teiliwr fod yn gyrchfan mewn cymdogaeth lle y byddai pobl yn siarad, trafod a dadlau, ac mae'n amlwg yn ôl tystiolaeth ei nofelau bod Daniel Owen wedi cael profiadau gwerthfawr yno.

Yr oedd yn dair ar ugain mlwydd oed cyn cael ei dderbyn yn aelod eglwysig, er ei fod yn wrandawr ffyddlon. Tipyn o syndod i'r eglwys oedd iddo ddechrau pregethu ym 1864 a gwneud cais fel ymgeisydd am y weinidogaeth ac yntau heb wneud unrhyw waith cyhoeddus cyn hynny. Yn y cyfnod hwn cyfieithodd nofel Americanaidd, sef *Twelve Nights in a Bar Room*, a gyhoeddwyd mewn pythefnosolyn o'r enw *Charles o'r Bala*. Aeth i Goleg y Bala ym 1865 ond nid oedd yn fyfyriwr o fri – er ei fod yn ddarllenwr mawr – a gorfu iddo adael yn ddisymwth ym 1867 oherwydd

salwch ei fam a'i chwaer. Ailgydiodd yn ei waith fel teiliwr gyda'i hen gyflogwr ac wedi peth amser aeth i gadw ei fusnes teilwra ei hun.

Torrodd ei iechyd ym 1876 a rhoddodd y gorau i bregethu a gwaith cyhoeddus ond pydrodd arni gyda'r ysgrifennu. O dan anogaeth y Parch. Roger Edwards (awdur yr emyn, "Pa le, pa fodd dechreuaf foliannu'r Iesu mawr?"), gweinidog eglwys Bethesda'r Wyddgrug, dechreuodd ysgrifennu i'r *Drysorfa* o dan y ffug enw "Offrymau Neilltuaeth". Dechreuodd ysgrifennu'r *Dreflan* ac yna ei nofel gyntaf *Rhys Lewis*, bob yn bennod, ac fe'i cyhoeddwyd yn yr un cylchgrawn rhwng 1882 a 1885. Wedyn cyhoeddwyd *Enoc Huws* a *Gwen Tomos* yn *Y Cymro*. Daniel Owen oedd y cyntaf i gyhoeddi nofelau o'r math yma trwy gyfrwng y Gymraeg ac agorodd ddrws llenyddol i eraill ei ddilyn. Ynddynt disgrifiai'r gymdeithas a'r cyfnod yr oedd ef yn rhan ohoni. Cymdeithas Gymraeg ydoedd a'r capel yn ganolbwynt i'w gweithgareddau. Trwy ei gymeriadau lliwgar a'i ymddygiad â'r berthynas rhyngddynt llwyddodd i fynegi'r rhagrith a'r diffuantrwydd, y tyndra a'r llawenydd sy'n rhan o gynhysgaeth pobl ym mhob oes. Bu farw 22 Hydref 1895 yn 59 flwydd oed ac fe'i claddwyd ym mynwent gyhoeddus yr Wyddgrug.